**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1324
Ein cyf/Our ref EM/00506/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Mawrth 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Chwefror ar ran Stefan Coghlan ynglŷn â deiseb i rannu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn unedau llai.

Nid wyf yn credu y dylem ystyried torri'r bwrdd iechyd yn unedau llai. Y bwrdd iechyd hwn yw'r un mwyaf yng Nghymru ac rwy'n credu ei fod yn elwa'n sylweddol o'i raddfa. Mae ei faint yn golygu y gall ddarparu gwasanaethau cyson i boblogaeth y Gogledd, drwy reoli un rhestr aros ar gyfer cleifion. Gall gynnal y màs critigol sydd ei angen ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau arbenigol, hyd yn oed wrth i ddatblygiadau mewn safonau proffesiynol arwain at fwy o is-arbenigo. Felly, dylai allu darparu gwasanaethau arbenigol mwy gwydn drwy weithio ar draws ffiniau ardaloedd fel un corff.

Unrhyw newid trefniadol sylweddol, neu ymgais i rannu'r bwrdd iechyd yn gyrff llai, ond yn arwain at darfu pellach ar system iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn dal i adfer o effaith y pandemig. Gall hyn amharu ar fy amcanion i wella'r gofal. Byddai hefyd yn creu costau rheoli ychwanegol ar adeg pan fo cyllid yn dynn.

Yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod arweinyddiaeth a seilwaith priodol yn y bwrdd iechyd i ateb y galw am ei wasanaethau. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi'r bwrdd iechyd i fwrw ymlaen â thrawsnewid a pheidio ag ymgymryd â gwaith ailstrwythuro aflonyddgar sy'n dargyfeirio adnoddau oddi wrth ofal cleifion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol i'ch deisebwyr.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services